

# Cynnig Gofal Plant Cymru – Diweddariad ar y Gwasanaeth Digidol Cenedlaethol Newydd

**Mae'r amseru wedi newid ar gyfer cyflwyno'r gwasanaeth digidol cenedlaethol. Bydd y gwasanaeth bellach yn cael ei gyflwyno i rieni o'r hydref 2022 ymlaen.**

Mae gwasanaeth digidol cenedlaethol y Cynnig Gofal Plant wrthi'n cael ei ddatblygu a'i brofi ar hyn o bryd gydag awdurdodau lleol, darparwyr gofal plant a rhieni.

## Beth mae hyn yn ei olygu i ddarparwyr gofal plant?

Os ydych yn ddarparwr gofal plant sy'n darparu oriau'r Cynnig Gofal Plant ar hyn o bryd, neu'n dymuno darparu oriau'r Cynnig Gofal Plant yn y dyfodol, bydd angen i chi gofrestru ar-lein gyda gwasanaeth digidol cenedlaethol newydd Cynnig Gofal Plant Cymru yn ddiweddarach eleni. Bydd rhagor o fanylion ynglŷn â phryd y bydd y gwasanaeth ar gael i ddarparwyr greu eu cyfrifon yn cael eu hanfon at ddarparwyr gofal plant, trwy eu hawdurdodau lleol a Chynnig Gofal Plant Cymru.

Bydd rhieni'n gwneud cais am y Cynnig Gofal Plant ar-lein trwy'r gwasanaeth digidol cenedlaethol yn ystod tymor yr hydref 2022 yn barod i'w plentyn ddechrau ym mis Ionawr 2023.

Mae cwestiynau cyffredin ar gyfer darparwyr ar gael ar <https://llyw.cymru/cynnig-gofal-plant-cymru-gwasanaeth-cenedlaethol-digidol> a byddant yn cael eu diweddarwrth i ni gael mwy o wybodaeth i'w rhannu gyda chi.

## Sgiliau digidol

Er mwyn helpu darparwyr gofal plant i baratoi i ddefnyddio'r gwasanaeth digidol cenedlaethol newydd, mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda Chymunedau Digidol Cymru i lunio hyfforddiant wedi'i recordio i wella hyder gyda gwasanaethau ar-lein a sgiliau digidol.

Bydd y canllawiau fideo cyflym hyn, ar gyfer lefelau sylfaenol a chanolraddol, yn helpu i gynyddu'ch sgiliau a'ch hyder. Mae'r pynciau'n amrywio o sefydlu cyfeiriad e-bost a rheoli diogelwch ar-lein i greu cyfrif Porth Llywodraeth, ac arbed a lanlwytho dogfennau!

Mae'r hyfforddiant hwn ar gael yn

[www.digitalcommunities.gov.wales/essential-digital](https://www.digitalcommunities.gov.wales/essential-digital)

## Defnyddio'r gwasanaeth newydd

Bydd canllawiau mwy penodol ar sut i ddefnyddio gwasanaeth digidol cenedlaethol newydd Cynnig Gofal Plant Cymru ar gael drwy gydol 2022, cyn i'r gwasanaeth gael ei gyflwyno.

Os hoffech gael mwy o wybodaeth am y prosiect digidol neu gymryd rhan mewn profi'r gwasanaeth, cysylltwch â thîm y prosiect digidol ar [Digital.Childcare@gov.wales](mailto:Digital.Childcare@gov.wales)

**I gael mwy o wybodaeth am Cynnig Gofal Plant Cymru, ewch i:**

**Cynnig Gofal Plant Cymru | Help gyda Chostau Gofal Plant Cymru | LLYW.CYMRU**

**Gofal i blant 3 a 4 oed: canllawiau ar gyfer darparwyr | LLYW.CYMRU**



Mae **buddion** y gwasanaeth newydd yn cynnwys:

- un gwasanaeth cenedlaethol syml a fydd yn cael ei ddefnyddio gan bob awdurdod lleol yng Nghymru, gan arwain at brofiad cyson i rieni a darparwyr gofal plant
- ar gael i'w ddefnyddio trwy ffonau symudol, gliniaduron a dyfeisiau llechen
- yn gwbl ddwyieithog
- diogelwch data
- taliadau cyflym a rheolaidd yn cael eu gwneud yn uniongyrchol i ddarparwyr gofal plant gan Lywodraeth Cymru